**RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir.** *(Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)*

| **2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?** | |
|---|---|
| Polisi rhif *(nodwch)* | PS1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig |
| Paragraff rhif *(nodwch)* | |
| Cynigion/ Map Mewnosod *(nodwch y rhif cyfeirnod)* | |
| Map Cyfyngiadau | |
| Atodiadau *(nodwch)* | |

| **2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebu | ☐ | Cefnogi | ☐ |

**2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.**

Croesewir yr ymrwymiad i "Ddiogelu a chrfyhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei ddefnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned."

Er hyn, prin yw'r manylion yn y Cynllun ynglyn a sut y bwriedir diogelu'r iaith Gymraeg, gan sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig fel rhan o'r drefn gynllunio.

Mae pob cymuned yng Ngwynedd o arwyddocad ieithyddol, ac felly mae'n bywsig fod y Gymareg yn ystyriaeth bendol yn y drefn gynllunio ledled yr ardal.

Mae Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd a Môn wedi dangos nad yw osgoi twf mewn datblygiadau tai yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg ychwaith. Fodd bynnag, heb dystiolaeth 'gadarn' o'r **angen** lleol am dai, mae'n anodd gwybod i sicrwydd ai effaith cadarnhaol/negyddol a gaiff unrhyw ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg, ac o ystyried sefyllfa fregus yr iaith Gymraeg fel iaith leiafrifol y gwneir llai o ddefnydd ohoni yn gyffredinol, does dim modd cymryd y siawns yna heb wybod i sicrwydd y bydd unrhyw ddatblygiad yn atgyfnerthu sefyllfa'r iaith. Dylid cydnabod y dylai pob datblygiad economaidd neu aneddleoedd atgyfnerthu'r iaith GYmraeg, ac na ddylid ystyried unrhyw ddatblygiad fyddai'n golygu mesurau i liniaru ei effaith ar yr iaith Gymraeg.

At hyn, mae diogelu'r iaith Gymraeg yn thema llorweddol a dylid adlewyrchu hynny drwy gydol y Cynllun Adnau.

Cydnabyddir hefod fod twf economaidd yn mynd law yn llaw gyda thwf a chadernid ieithyddol.

*Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.*
*Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio..........*

**2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau.**

Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynus i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn.

**2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau**

Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a bywgiorwydd a hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

Mae angen i'r Cynllun Adnau adlewyrchu'r ffaith fod y Gymraeg yn thema llorweddol ar draws yr holl Gynllun.

Mae angen eglurder o'r modd y bwriedir diogelu'r iaith Gymraeg.

**2dd. Ydi'r Cynllun yn gadarn?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydi | ☐ | Nac ydi | ☐ |

**2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu?** (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) *Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon*

| ***Gweithdrefnol*** | | | | ***Cysondeb*** | | | | | | | | ***Cydlyniad ac Effeithiolrwydd*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***P1*** | ☐ | ***P2*** | ☐ | ***C1*** | ☐ | ***C2*** | ☐ | ***C3*** | ☐ | ***C4*** | ☐ | ***CE 1*** | ☐ | ***CE 2*** | ☐ | ***CE 3*** | ☐ | ***CE 4*** | ☐ |

**RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir.** *(Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)*

| **2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?** | |
|---|---|
| Polisi rhif *(nodwch)* | TWR4 – Deiliadaeth Gwyliau |
| Paragraff rhif *(nodwch)* | |
| Cynigion/ Map Mewnosod *(nodwch y rhif cyfeirnod)* | |
| Map Cyfyngiadau | |
| Atodiadau *(nodwch)* | |

| **2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebu | ☐ | Cefnogi | ☐ |

**2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.**

Mae'r polisi yn nodi y caniateir cynigion "…i ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafanau sefydlog a chalet presennol os gellir dangos bod y llety yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad yw'n dod yn brif neu unig gartref y deilydd."

Mae pryder ynglŷn â'r bwriad o ganiatáu ymestyn y tymor gwyliau i 12 mis, ac effaith hynny ar gymunedau Cymraeg eu hiaith, ac yn sgil yr argyfwng ariannol, methiant y Cyngor i blismona a monitro'r sefyllfa yn ddigonol.

Mae nifer o safleoedd gwyliau fel hyn (megis Ocean Heights) wedi eu lleoli mewn ardaloedd sydd yn gadarnleoedd i'r iaith Gymraeg, a gall ymestyn y tymor gwyliau felly arwain at effaith negyddol ar sefyllfa'r iaith yn y cymunedau y lleolir y safleoedd gwyliau hyn ynddynt.

*Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.*
*Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio..........*

| **2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau.** |
|---|
| Nid oes budd economaidd o ymestyn y tymor gwyliau i 12 mis fyddai'n cyfrannu at sicrhau cymunedau cynaliadwy.<br><br>Ni all y Gymraeg ychwaith ymdopi gydag effaith negyddol ymestyn y tymor gwyliau all olygu cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth rhai cymunedau a bod hynny o fudd sydd i'w gael o hynny yn cael ei or-bwyso gan effeithiau negyddol caniatadau o'r fath, fel yr effaith ar natur ieithyddol cymunedau a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. |

| **2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau** |
|---|
| Angen ailystyried y polisi o ganiatáu meysydd carafanau a 'chalets' i agor 12 mis. |

| **2dd. Ydi'r Cynllun yn gadarn?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydi | ☐ | Nac ydi | ☐ |

**2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu?** (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) *Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon*

| ***Gweithdrefnol*** | | | | ***Cysondeb*** | | | | | | | | ***Cydlyniad ac Effeithiolrwydd*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***P1*** | ☐ | ***P2*** | ☐ | ***C1*** | ☐ | ***C2*** | ☐ | ***C3*** | ☐ | ***C4*** | ☐ | ***CE 1*** | ☐ | ***CE 2*** | ☐ | ***CE 3*** | ☐ | ***CE 4*** | ☐ |

**RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir.** *(Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)*

| **2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?** | |
|---|---|
| Polisi rhif *(nodwch)* | TAI5 – Tai Marchnad Lleol |
| Paragraff rhif *(nodwch)* | |
| Cynigion/ Map Mewnosod *(nodwch y rhif cyfeirnod)* | |
| Map Cyfyngiadau | |
| Atodiadau *(nodwch)* | |

| **2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebu | ☐ | Cefnogi | ☐ |

**2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.**

Mae Polisi TAI5 'Tai Marchnad Lleol' yn nodi y "Caniateir datblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd penodol…" cyn belled a bod meini prawf yn cael eu cyrraedd. Yr aneddleoedd a nodir yng Ngwynedd yw:
Abersoch,
Aberdaron,
Mynytho,
Llanbedrog,
Sarn Bach
Tudweiliog.

Awgrymir y dylid cynnwys holl ardal AHNE fel rhan o'r Polisi Tai Marchnad Leol/tai fforddiadwy, er mwyn gwarchod cymunedau a bywgiorwydd a hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

Awgrymir hefyd y gellir ystyried sefydlu ymddiriedolaethau tai lleol i fod yn gyfrifol am yr angen lleol am dai a'r modd y diwallir yr angen hwnnw gan ddod a budd i'r gymuned leol.

*Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.*
*Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio..........*

| **2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau.** |
|---|
| Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi o'r fath, y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun.<br><br>Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol. |

| **2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau** |
|---|
| Cynyddu'r nifer o aneddleoedd penodol a enwir o dan polisi TAI5 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn gwarchod cymunedau Gwynedd a hyfywedd y Gymraeg. |

| **2dd. Ydi'r Cynllun yn gadarn?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydi | ☐ | Nac ydi | ☐ |

**2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu?** (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) *Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon*

| ***Gweithdrefnol*** | | | | ***Cysondeb*** | | | | | | | | ***Cydlyniad ac Effeithiolrwydd*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***P1*** | ☐ | ***P2*** | ☐ | ***C1*** | ☐ | ***C2*** | ☐ | ***C3*** | ☐ | ***C4*** | ☐ | ***CE 1*** | ☐ | ***CE 2*** | ☐ | ***CE 3*** | ☐ | ***CE 4*** | ☐ |